
Cymoedd i'r Arfordir
Valleys to Coast



Pecyn Gwybodaeth Recriwtio

# Cadeirydd y Bwrdd

## Rydyn ni'n credu mewn pobl, rydyn ni'n credu ynoch chi.

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Croeso | 3 |
| Nodyn gan Gadeirydd y Bwrdd sy'n ymadael | 4 |
| Pwy ydym ni | 6 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 8 |
| Cwrdd â'r Tîm Gweithredol | 9 |
| Cwrdd â'r Bwrdd | 10 |
| Disgrifiad o'r rôl | 12 |
| Dyddiadau allweddol | 15 |


**Darparu cartrefi lle mae pobl yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus.**

# Croeso i Cymoedd i'r Arfordir

**Rydym yn falch iawn eich bod yn ystyried ymuno â ni fel Cadeirydd ein Bwrdd. Os ydych yn darllen hwn, yna rydym eisoes yn gwybod eich bod chi'n angerddol am wneud gwahaniaeth, yn angerddol am dai cymdeithasol, ac yn angerddol am weithio i sefydliad sy'n rhannu eich gwerthoedd – sydd i gyd yn rhinweddau delfrydol ar gyfer y rôl hon.**

Yma yn Cymoedd i'r Arfordir mae ein cwsmeriaid, ein cymunedau lleol a'n hamgylchedd yn bwysig i'n gydweithwyr. Maen nhw eisiau ein helpu i dyfu a manteisio i'r eithaf ar y cyfle unigryw sydd gennym i adeiladu a thyfu sefydliad sy'n fwy na dim ond landlord. Gallech chi hefyd ein helpu i gyrraedd ein potensial.

Wrth i ni symud ein busnes ymlaen drwy gyfnodau Sylfaen, Adeiladu a Thyfu ein Cynllun Corfforaethol 10 mlynedd, rydym wedi atgyfnerthu ein dulliau llywodraethu ac wedi buddsoddi mewn Bwrdd amrywiol sy'n meddu ar ystod amrywiol o sgiliau a gwybodaeth i'n herio a'n cefnogi.

Oherwydd bod ein Cadeirydd presennol, Anthony Whittaker, yn camu i lawr o'r swydd, ein nod yw recriwtio arweinydd ysbrydoledig arall i gyflawni ein huchelgeisiau. Fel ein Cadeirydd, rydym yn chwilio am arweinydd ysbrydoledig sy'n meddwl yn strategol ac sy'n gweithio'n dda mewn tîm sydd â chwsmeriaid a chymunedau yn ganolog iddo. Mae'r gallu i gefnogi a herio yn adeiladol yn hollbwysig.

Mae gan y Cadeirydd rôl hollbwysig, yn ychwanegu at y camau breision rydym wedi'u cyflawni ym maes llywodraethu dros y tair blynedd ddiwethaf ers i mi ddechrau fel Prif Weithredwr. Fel rhan o'n Bwrdd, gallech rannu eich arbenigedd ar draws y busnes cyfan. Rydym yn canolbwyntio ar gynaliadwyedd, adfywio, a chreu cartrefi diogel a hapus, mewn mannau diogel a hapus, ar gyfer cwsmeriaid diogel a hapus sydd wrth galon ein sefydliad.


Rydym hefyd eisiau bod yn gyflogwr cydweithwyr diogel a hapus, sy'n cynnwys aelodau ein Bwrdd. Rydym yn croesawu Gweithio Callach sy'n caniatáu rhywfaint o hyblygrwydd i'n cydweithwyr ynghylch ble a sut y maent yn gweithio a rhoi anghenion ein cwsmeriaid yn gyntaf bob amser.

Mae bod yn rhan o'n tîm yn golygu bod yn rhan o'r datrysiad ar gyfer cyflenwi gwasanaeth cwsmeriaid rhagorol, gwella rhagolygon ar draws bwrdeistref Pen-y-bont ar Ogwr, datblygu a chynyddu gweithlu medrus, buddsoddi yn ein cartrefi ac adeiladu'r cartrefi cywir yn y lleoedd cywir a lleihau ein heffaith amgylcheddol fel busnes.

Os yw hyn yn apelio i chi, yna rydym yn awyddus iawn i glywed gennych chi! Darllenwch drwy'r pecyn gwybodaeth hwn ac ewch i'n gwefan a'n cyfryngau cymdeithasol cyn gwneud cais ac os oes gennych unrhyw gwestiynau, mae croeso i chi gysylltu â ni. Edrychwn ymlaen at glywed gennych chi.



**Joanne Oak**
Prif Weithredwr y Grŵp



# Nodyn gan Gadeirydd y Bwrdd sy'n ymadael

**Ymunodd Cadeirydd y Bwrdd sy'n ymadael, Anthony Whittaker â Cymoedd i'r Arfordir yn dilyn gyrfa 40 mlynedd ym maes tai gydag awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig – y 23 mlynedd olaf fel Prif Weithredwr United Welsh.**

Yn ystod ei ddaliadaeth, mae wedi cynorthwyo'r Bwrdd a'r busnes i weithredu yn ystod y pandemig Covid a'r heriau yn ystod y cyfnod adfer.

Mae Anthony wedi datblygu perthnasoedd cadarn gyda phartneriaid a rhanddeiliaid er mwyn helpu i gyflawni blaenoriaethau strategol y sefydliad – gan gynnwys ei raglenni uchelgeisiol i ddatblygu 1,000 o gartrefi newydd dros 10 mlynedd a mynd i'r afael â digartrefedd.



Rwyf wedi bod yn falch iawn o fod yn Gadeirydd Bwrdd Cymoedd i'r Arfordir am y pum mlynedd ddiwethaf, cyfnod lle'r ydym wedi goresgyn llawer o heriau ond wedi parhau i gynyddu ein huchelgeisiau a'n cryfder.

Ar ôl dathlu ein pen-blwydd yn 20 oed fel sefydliad yn ddiweddar, ac wrth i ni symud ymlaen i bennod newydd, gyffrous a chreu ein his-gwmni o dan berchnogaeth lwyr, mae'n teimlo fel yr amser cywir i drosglwyddo'r awenau.

Fel Cadeirydd y Bwrdd, rwy'n falch o weld sut yr ydym fel busnes wedi addasu wrth i'n hamgylchedd a'n heriau newid, a bod yr un cryfder a phenderfyniad a oedd gennym yn 2003 wedi parhau'n gyson dros amser. Yn yr amgylchedd gweithredu allanol anodd presennol, gyda'r pwysau economaidd sy'n rhoi pwysau ychwanegol ar ein penderfyniadau, mae'n anochel y bydd yn rhaid i Cymoedd i'r Arfordir feddwl yn wahanol ynglŷn â sut mae'n cyflenwi ei wasanaethau a pharhau i fod yn landlord sy'n rhoi ei gwsmeriaid wrth ei galon.

Yn ystod fy naliadaeth fel Cadeirydd, rydym wedi atgyfnerthu ein dulliau llywodraethu er mwyn sicrhau ein bod yn gwneud penderfyniadau da gyda Bwrdd sy'n seiliedig ar sgiliau, ac rydym wedi creu partneriaeth gref rhwng y Bwrdd a'r Tîm Gweithredol sy'n seiliedig ar fod yn agored, ymddiriedaeth ac ymdrech ar y cyd.

Y perthnasoedd cryf hyn, ac amrywiaeth y profiad, y meddwl a'r farn, fydd yn helpu'r sefydliad i lywio'r heriau sydd i ddod wrth barhau i gyrraedd ei botensial.

Wrth ystyried rôl Cadeirydd y Bwrdd, rwy'n siŵr eich bod yn rhannu perthnasoedd, cryfderau a gwerthoedd tebyg.

Gall y Cadeirydd newydd edrych ymlaen at gefnogi Cymoedd i'r Arfordir wrth iddynt fwrw ymlaen â'u buddsoddiad uchelgeisiol mewn cartrefi newydd a phresennol – cartrefi fforddiadwy o ansawdd da a fydd yn addas ar gyfer y dyfodol, ac a fydd yn chwarae rôl bwysig wrth fynd i'r afael â digartrefedd yn ardal Pen-y-bont ar Ogwr.

Wrth gwrs, mae hyn yn fwy na chartrefi, mae'n golygu ein cwsmeriaid a'n cymunedau, ac fel y Cadeirydd, bydd angen i chi roi blaenoriaeth i'r rhain wrth i chi ysgogi, herio a chefnogi penderfyniadau ar y lefel uchaf.

Mae'n gyfle cyffrous, ac wrth i mi baratoi i drosglwyddo'r awenau, rwy'n gwneud hynny gyda balchder aruthrol yn yr hyn rydyn ni eisoes wedi'i gyflawni a beth sydd eto i ddod.



**Anthony Whittaker**

Cadeirydd y Bwrdd sy'n ymadael

# Pwy ydym ni, beth ydym ni'n ei wneud

## Rydym yn sefydliad nid-er-elw sy'n gweithredu ar draws ardal awdurdod lleol Pen-y-bont ar Ogwr

Rydym yn darparu gwasanaethau rheoli, cynnal a chadw a gwella i bortffolio o gartrefi rhentu, fflatiau ar les, eiddo masnachol a garejis. Rydym hefyd yn datblygu cartrefi newydd ym Mhen-y-bont ar Ogwr a'r cyffiniau i gefnogi'r angen lleol am dai.

Rydym yn gymdeithas dai uchelgeisiol ac mae ein cwsmeriaid wrth galon popeth a wnawn, dull gweithredu sy'n cael ei adlewyrchu yn ein strategaeth gorfforaethol 10 mlynedd. Rydym yn canolbwyntio yn awr ar yr 'hanfodion gwych' ac yn perffeithio ein gwasanaethau atgyweirio a chynnal a chadw craidd, a fydd yn gosod y seiliau i ni adeiladu a thyfu. Ein gweledigaeth yw helpu i greu Pen-y-bont ar Ogwr a Chymru well.

Ac, wrth i ni dyfu, rydym yn ymrwymedig i fod yn feiddgar. Yn 2024 byddwn yn lansio ein his-gwmni o dan berchnogaeth lwyr, Llanw, a fydd yn cyflenwi gwasanaeth trwsio a chynnal a chadw gwell a mwy effeithlon i'n cwsmeriaid a'n rhanddeiliaid. Cwmni newydd wedi'i wreiddio yn yr un gwerthoedd.





Ein gweledigaeth

# Helpu i greu Pen-y-bont ar Ogwr a Chymru well

Ein gwerthoedd

## Gwerthfawrogi pobl

gweld y potensial mewn pobl, y rhai rydym yn gweithio gyda nhw, a'r rhai rydym yma i'w gwasanaethu

## Meddwl yn wahanol

rhoi cynnig ar bethau newydd i wella bywydau a gyrfaoedd pobl

## Dewrder i fwrw ymlaen

rydym yn siarad, gweithio a gweithredu gydag rgyhoeddiad, cryfder a phenderfyniad

# **Pen-y-bont ar Ogwr –** bwrdeistref llawn cyfleoedd



## Lleoliad

Mae Pen-y-bont ar Ogwr yn dref gyfeillgar gyda hanes balch a llawer o botensial. Wedi'i lleoli ar hyd coridor yr M4 yn Ne Cymru, mae wedi'i lleoli 20 milltir i'r gorllewin o Gaerdydd ac i'r dwyrain o Abertawe, sy'n golygu ei fod yn lle gwych i gymudo – yn hygyrch o fewn awr o deithio mewn car neu drên o Orllewin Cymru i Fryste.

## Adfywiad

Mae buddsoddiad diweddar wedi cefnogi adfywiad Pen-y-bont ar Ogwr sy'n cynnig cyfleoedd manwerthu a diwydiannol gwych yn awr ac mae'n lleoliad lle mae potensial aruthrol ar gyfer twf.

Mae gan Cymoedd i'r Arfordir ran i'w chwarae yn hynny – rydym eisoes yn adeiladu cartrefi newydd; yn chwilio am brosiectau creadigol i adfywio canol trefi; ymgysylltu â busnesau a chontractwyr lleol drwy ein gweithgareddau caffael; gweithio mewn partneriaeth â Chyngor Pen-y-bont ar Ogwr a Choleg Pen-y-bont ar Ogwr ar brosiectau mawr; a chyflogi'r mwyafrif helaeth o'n cydweithwyr o Fwrdeistref Pen-y-bont ar Ogwr, a darparu cyflogau a buddiannau da wedi'u meincnodi.

Yn ddi-os, gyda chyllid ychwanegol gallem sicrhau effaith gadarnhaol hyd yn oed yn fwy arwyddocaol felly rydym yn mynd ati i chwilio am fuddsoddiad ychwanegol a chyfleoedd ariannol i gefnogi ein gwaith a'n dyheadau ar gyfer Pen-y-bont ar Ogwr.

# Cwrdd â'r Tîm Gweithredol

## Y Tîm Gweithredol sy'n gyfrifol am fusnes y Grŵp o ddydd i ddydd, sydd â chyfoeth o dalent, sgiliau a phrofiad i'w cyfrannu i Cymoedd i'r Arfordir.



**Joanne Oak**
Prif Weithredwr y Grŵp

Mae Joanne yn gyfrifydd cymwysedig sydd â thros 20 mlynedd o brofiad mewn swyddi arwain uwch ar draws y sector cyhoeddus a'r trydydd sector. Cyn hynny, bu'n gweithio fel Cyfarwyddwr Strategaeth a Gwasanaethau Corfforaethol Gofal Cymdeithasol Cymru, sefydliad gofal a chymorth. Mae Jo hefyd yn aelod brwd o Fwrdd Coleg Pen-y-bont ar Ogwr, ac yn Ymddiriedolwr ar gyfer Adeiladu Ymddiriedolaeth Cymunedau. Ymunodd â ni ym mis Mai 2020.



**Darrin Davies**
Cyfarwyddwr Gweithredol
Datblygiad a Thwf

Mae Darrin yn Syrfëwr Siartredig sydd â phrofiad sylweddol yn y sector preifat a'r sector cyhoeddus. Ers ymuno â'r sector cymdeithas tai yn 1990, mae wedi arwain ar gyflenwi cartrefi newydd, rheoli asedau a FM, caffael, cynaliadwyedd ac iechyd a diogelwch. Ymunodd â ni ym mis Ebrill 2017.



**Emma Howells**
Cyfarwyddwr Gweithredol Tai,
Cwsmeriaid a Chymunedau

Mae Emma wedi gweithio yn y sector tai yng Nghymru a Lloegr ers dros 20 mlynedd, ac mae wedi bod yn arwain yn Trivallis, United Welsh, a Bwrdeistref Camden yn Llundain, gan ddarparu amrywiaeth o wasanaethau sy'n gysylltiedig â thai. Mae gan Emma ddiddordeb arbennig mewn lleisiau cwsmeriaid, gweithio adferol, a dylunio gwasanaethau arloesol. Ymunodd â ni ym mis Ionawr 2020.



**Huw Lewis**
Cyfarwyddwr Gweithredol Interim
Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol

Yn Gyn Brif Swyddog Ariannol yn y Bathdy Brenhinol, mae Huw Lewis yn ymuno â ni fel Cyfarwyddwr Gweithredol Interim Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol ym mis Rhagfyr 2023. Mae gan Huw brofiad helaeth ym maes cyfrifeg a masnachol o'i yrfa amrywiol gartref a thramor.



**Claire McDougall**
Cyfarwyddwr Llywodraethu a Sicrwydd

Gweithiwr proffesiynol cymwys ym maes llywodraethu gyda thros 10 mlynedd o brofiad yn y sector tai cymdeithasol yng Nghymru, ar ôl gweithio'n flaenorol i Cartrefi Cymunedol Cymru a Thai Wales and West. Mae gan Claire brofiad o ddatblygu polisi llywodraethu a datblygu arfer gorau, yn ogystal â gweithredu a chydymffurfio. Ymunodd â ni ym mis Ebrill 2022.

**Rydyn ni'n credu mewn pobl, rydyn ni'n credu ynoch chi.**


# Cwrdd â'r Bwrdd

Mae gan Fwrdd Cymoedd i'r Arfordir ystod amrywiol o sgiliau a phrofiad, nid yn unig gwybodaeth am y sector tai, ond gwybodaeth hefyd am y sectorau ariannol, cyhoeddus, llywodraethu a chyfreithiol hefyd. Mae hyn, ochr yn ochr â'u hangerdd am dai cymdeithasol, yn hollbwysig i ni wrth i ni gynllunio ar gyfer y 10 mlynedd nesaf.



**Anthony Whittaker – Cadeirydd**

Mae Anthony wedi ymddeol yn ddiweddar yn dilyn gyrfa 40 o flynyddoedd yn gweithio i nifer o sefydliadau tai nid-er-elw. Yn fwyaf diweddar roedd yn Brif Weithredwr un o gymdeithasau tai blaenllaw Cymru. Mae hefyd wedi gwasanaethu fel aelod anweithredol o'r Bwrdd i nifer o gymdeithasau tai yng Nghymru a Lloegr. Yn un o drigolion Pen-y-bont ar Ogwr, yn ei amser hamdden mae'n mwynhau cerdded ei gŵn, garddio a dilyn ei (gyn) dîm pêl-droed lleol.




**Joanne Smith – Is-gadeirydd**

Cafodd Joanne ei phenodi'n ddiweddar i swydd Rheolwr Llywodraethu a Rheoleiddio ar gyfer cymdeithas tai yn Ne Cymru yn dilyn secondiad dwy flynedd i'r Tîm Rheoleiddio Tai yn Llywodraeth Cymru. Cyn hynny, bu Joanne yn gweithio am nifer o flynyddoedd ym maes rheoli tai gweithredol lle cyflawnodd MSc mewn tai o Brifysgol Caerdydd. Mae Joanne yn credu'n gryf yn y manteision y gall cartrefi a gwasanaethau diogel o ansawdd da eu cynnig i wella iechyd a lles pobl.



**Mark Woloshak**

Mae Mark yn gyfreithiwr yng Nghaerdydd, sy'n gweithio i gwmni cyfreithwyr Howells yn Ne Cymru. Mae ei waith proffesiynol wedi cynnwys gweithredu ar ran llawer o gymdeithasau tai, a chyn hynny bu ar Fwrdd cymdeithas dai yn Nyfnaint. Yn wreiddiol o Lundain, mae gan Mark ddiddordeb brwd mewn tai cymdeithasol ac mae'n credu'n gryf yn ei bwysigrwydd i lesiant cymdeithas.




**Andrew Wallbridge**

Mae Andrew yn ymgynghorydd rheoli ar gyfer cwmni ymgynghori ym Mhen-y-bont ar Ogwr ac mae'n gweithio gyda llawer o gymdeithasau tai ar draws De Cymru. Mae wedi bod yn denant ers dros naw mlynedd ac mae'n byw gyda'i wraig a'i deulu ym Maesteg.



**Caroline Jones**

Mae Caroline yn Gyfarwyddwr Cyswllt yn Savills, yn ogystal â bod yn syrfëwr siartredig ac yn werthwr cofrestredig Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig. Mae'n gweithio yn yr adran ddatblygu, gan gynghori ar ddatblygu ac adfywio eiddo. Mae Caroline wedi gweithio'n agos gyda'r sector tai fforddiadwy yng Nghymru, gan ddarparu cyngor prisio ac ymgynghori ar asedau a rhaglenni adeiladu newydd.



**Sharon Lee**

Mae Sharon yn Brif Weithredwr Aelwyd Housing, cymdeithas dai sy'n seiliedig ar ffydd ac sy'n gweithredu ar draws De Cymru, ac mae wedi gweithio yn y maes tai a digartrefedd ers bron 30 mlynedd. Mae'n aelod bwrdd profiadol ac roedd gynt yn Gadeirydd cymdeithas dai fawr yng Nghymru. Mae Sharon yn byw gyda'i theulu ym Mhen-y-bont ar Ogwr ac yn ei hamser hamdden mae'n helpu i achub a chefnogi'r boblogaeth ddraenogiaid leol.



### Derek Hobbs

Mae Derek yn Gyfarwddwr Digital Digital Transformation Relationships Ltd. Mae ganddo wybodaeth ac arbenigedd gwych yn yr agweddau technegol, ymarferol a chyfreithiol ar dechnegau digidol, dealltwriaeth a marchnata modern yn y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol. Mae'n byw ym Mhen-y-bont ar Ogwr ac mae wedi chwarae rygbi am dros 35 o flynyddoedd. Mae hefyd yn mwynhau garddio, gan dyfu amrywiaeth o ffrwythau a llysiau, a chwarae'r allweddell. Ond mae'n treulio llawer o'i amser yn gofalu am ei bedwar o wyrion ac wyresau.



### Tara King

Mae Tara yn Gyfarwyddwr yn KingShipp Sustainable Solutions, yn gynghorydd annibynnol ar gyfer caffael cylchol, rheoli adnoddau materol, a phrosiectau ynni adnewyddadwy. Mae hefyd yn gwirfoddoli fel Cadeirydd Bwrdd Ymddiriedolwyr ar gyfer elusen leol, Cymru Gynaliadwy ym Mhorthcawl, a'r Groes Goch. Mae Tara yn byw yng Nghaerffili, ac yn ei hamser hamdden mae'n mwynhau helpu gwyliau cerddoriaeth lleol i ddod yn garbon is drwy ailgylchu a chyngor ar ynni gwyrdd.



### Sophie Taylor

Mae Sophie yn gyfrifydd cymwysedig ac ar hyn o bryd mae'n gweithio fel Dirprwy Gyfarwyddwr Cyllid a Chaffael yn Cartrefi Dinas Casnewydd. Mae ganddi ddealltwriaeth ragorol o'r heriau sy'n wynebu'r sector tai, ynghyd ag ymwybyddiaeth o'r cymhlethdodau sydd ynghlwm wrth reolaeth mewn sefydliad sector cyhoeddus sy'n gorfod gwrthbwyso galwadau masnachol â dealltwriaeth o bwysigrwydd swyddogaeth lywodraethu. Mae'n gallu deall cysyniadau cyfrifyddu cymhleth a dadansoddi data'n effeithiol, ac mae ei rôl fel Uwch Reolwr Cyllid yn golygu ei bod yn gallu cyfathrebu a dylanwadu'n effeithiol. Mae hefyd yn cadeirio Grŵp Cyflenwi Gwasanaeth Cyllid Cartrefi Cymunedol Cymru, ac mae'n eistedd ar Bwyllgor Archwilio a Rheoli'r Ffederasiwn Tai Cenedlaethol.




### Joy Ogeh-Hutfield

Mae Joy yn hyfforddwr rhyngwladol dawnus a llwyddiannus ac yn Brif Swyddog Gweithredol y JT International Leadership Academy. Mae ganddi hanes dynamig o lwyddiant wrth gyflawni amrywiaeth a chynhwysiant, datblygu arweinyddiaeth, hyfforddi swyddogion gweithredol, a chynnal mentrau grymuso menywod, ar lefel uwch-reolwr mewn amrywiaeth eang o sefydliadau yn y DU, Ewrop, Yr Unol Daleithiau ac Affrica. Mae Joy yn byw yn Abertawe ac mae'n cyfrannu'n rheolaidd fel siaradwr gwadd arbenigol ar egwyddorion hyfforddi, amrywiaeth ac arweinyddiaeth ar amrywiol raglenni BBC TV a BBC Radio Wales, gan gynnwys X-Ray, the One Show, Good Morning Wales a'r Eleri Sion Show.



### Mark Doubler

Mae Mark yn Gyfarwyddwr Eiddo i gymdeithas dai fawr yn Ne Cymru. Mae wedi gweithio mewn nifer o uwch rolau ym maes tai cymdeithasol gan gynnwys datblygu busnes, tai rheng flaen a gwasanaeth cwsmeriaid. Cyn hynny roedd ganddo yrfa lwyddiannus mewn llywodraeth leol a chyllid masnachol. Mae Mark hefyd yn gyfarwyddwr cwmni sy'n darparu gwasanaethau rhannu prentisiaeth i'r diwydiant adeiladu.



### Richard Jenkins

Mae Richard yn gwasanaethu fel Swyddog Gweithredol Portffolio yn Banc Datblygu Cymru, lle mae'n chwarae rhan hanfodol yn cynorthwyo busnesau bach a chanolig Cymru i sicrhau cyllid at ddibenion amrywiol, gan gynnwys ar gyfer creu swyddi, caffael busnes, caffael eiddo, ac ehangu busnes yn gyffredinol. Yn ogystal â'i gyfrifoldebau ariannol, mae'n goruchwylio perfformiad ariannol yn ddiwyd. Mae'n byw ym Mhen-y-bont ar Ogwr gyda'i deulu, ac mae magwraeth Richard mewn tai V2C wedi meithrin angerdd dwfn dros ddeall ac eirioli'r gwasanaethau hanfodol a'r rôl ddylanwadol y mae tai cymdeithasol yn ei chyflawni yn ein cymunedau.

# **Cadeirydd y Bwrdd**
# Disgrifiad o'r rôl

## Pwrpas

Pwrpas y rôl yw darparu arweinyddiaeth strategol i'r Bwrdd a'r sefydliad, i'w galluogi i gyflawni ei gyfrifoldebau dros y cyfeiriad a'r llywodraethiant strategol cyffredinol, a gweithredu'n llwyr er budd gorau'r sefydliad a chwsmeriaid Pen-y-bont ar Ogwr.

## Perthnasoedd Allweddol

### – Prif Weithredwr y Grŵp

Tra bod y Cadeirydd yn arwain y Bwrdd, mae Prif Weithredwr y Grŵp yn arwain y Tîm Gweithredol ac yn cymryd cyfrifoldeb am eu cyflawniadau. Mae perthynas gref a chadarnhaol rhwng y Prif Weithredwr a'r Cadeirydd yn hanfodol ar gyfer perfformiad effeithiol y Bwrdd, ei Bwyllgorau ac Cymoedd i'r Arfordir. Mae angen i'r Cadeirydd gefnogi datblygiad personol y Prif Weithredwr a datblygiad Cymoedd i'r Arfordir.

### – Yr Is-gadeirydd a Chadeiryddion Pwyllgorau

Bydd y Cadeirydd yn sefydlu perthynas waith adeiladol gyda'r Is-gadeirydd a Chadeiryddion Pwyllgorau er mwyn sicrhau bod ei fusnes yn cael ei gyflawni'n effeithiol a sicrhau trefniadau llywodraethu rhagorol.

### – Rhanddeiliaid

Hyrwyddo gwaith Cymoedd i'r Arfordir a chynnal perthnasoedd cadarnhaol gyda'r tîm gweithredol, cydweithwyr, cwsmeriaid ac asiantaethau a rhanddeiliaid eraill sy'n gysylltiedig â'n gweithgareddau.

## Cyfrifoldebau Allweddol

### Strategol ac Ymddygiadol

- Arwain datblygiad y Bwrdd gan gyfrannu at strategaeth, polisi a chynllunio. Arwain y gwaith o hwyluso'r broses o wneud penderfyniadau, gan sicrhau bod pob aelod o'r Bwrdd yn gallu gwneud cyfraniadau priodol;
- Sicrhau bod Cymoedd i'r Arfordir yn rhoi cwsmeriaid wrth galon popeth a wna a'u bod yn agored i'w cyfranogiad a'u dylanwad a chynnal eu parch drwy arddangos empathi;
- Cytuno ar feini prawf perfformiad sy'n galluogi'r Bwrdd a'i Bwyllgorau i reoli ei gyfeiriad strategol;
- Sicrhau bod gan Cymoedd i'r Arfordir ddiwylliant cadarnhaol o welliant parhaus a bod y Bwrdd yn annog perfformiad yn weithredol;
- Sicrhau bod Cymoedd i'r Arfordir yn meithrin partneriaethau cadarnhaol gyda rhanddeiliaid allweddol a'u defnyddio i gyflawni eu gweledigaeth;
- Gweithredu ar werthoedd personol, gan ddangos safonau da o onestrwydd personol a phroffesiynol;
- Sgiliau rhyngbersonol a gwrando gwych yn ogystal â'r gallu i gyfathrebu'n glir.

### Ariannol a Llywodraethu

- Sicrhau bod Cymoedd i'r Arfordir yn gwneud defnydd effeithlon ac effeithiol o'i adnoddau er mwyn cyflawni amcanion strategol, cynnal ein hyfywedd ariannol tymor hir a diogelu asedau;
- Sicrhau bod y gwahaniad rhwng swyddogaethau anweithredol a gweithredol y sefydliad, y penderfyniadau a wneir ganddo, a'r modd y'u cyflawnir yn cydymffurfio â'r Rheolau, y Cynllun Dirprwyo a'r Rheolau Sefydlog;
- Sicrhau ymddygiad effeithlon o ran llywodraethu, rhwymedigaethau cyfreithiol a rheoleiddiol y Bwrdd.

## Sgiliau Gwybodaeth a dealltwriaeth

### Hanfodol

- Dealltwriaeth gadarn o rôl Cadeirydd anweithredol a'r berthynas rhwng y Cadeirydd a'r Prif Swyddog Gweithredol a gallu a pharodrwydd i fod yn gyfaill beirniadol;
- Gwrando'n effeithiol, annog a chefnogi aelodau i gyfrannu a gwneud y defnydd gorau o'u sgiliau, eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth;
- Y gallu i feddwl yn strategol, cyfuno gwybodaeth gymhleth, pwyso a mesur opsiynau, datblygu polisi a mesur risgiau;
- Y gallu i arwain a grymuso'r Bwrdd i gyflawni'r canlyniadau a ddymunir;
- Bydd gennych arddull gydweithredol; yn ysgogwr da sy'n arwain drwy esiampl, gan annog eich cyd-aelodau o'r bwrdd i gyfrannu a theimlo eu bod yn cymryd rhan ac yn cael eu gwerthfawrogi;
- Hyrwyddo safonau moesegol uchel, arwain ar faterion fel amrywiaeth a chyfle cyfartal;
- Y gallu i ddeall gwybodaeth ariannol a gwerthuso risgiau cysylltiedig;
- Y gallu i fynd i'r afael â materion anodd gyda chysondeb, diplomyddiaeth a dycnwch;
- Ceisio barn y Bwrdd yn y lle cyntaf ond yn gallu dangos y gallu i feddwl yn annibynnol, gan ddatgan a chefnogi penderfyniadau personol o flaen cydweithwyr, a bod yn agored i her hefyd;
- Dealltwriaeth gadarn o anghenion a dyheadau ein cymunedau lleol, y gallu i hyrwyddo'r anghenion hynny, bod yn ymwybodol o faterion a newidiadau lleol a rhanbarthol a allai effeithio ar ein cwsmeriaid, cydweithwyr, rhanddeiliaid a chymunedau;
- Arddangos cred yn ein pwrpas a'n gweledigaeth ac eirioli'r rhain.
- Meddu ar affinedd gyda gwerthoedd Cymoedd i'r Arfordir.

### Dymunol

- Profiad o fod yn arweinydd mewn sefydliad (cyhoeddus/preifat/nid-er-elw) gyda dealltwriaeth o sut mae'n gweithredu, a'r gwasanaethau a ddarperir;
- Profiad o Dai Cymru a'r cyd-destun Rheoleiddiol a dealltwriaeth gadarn o'r materion mae'n eu hwynebu;
- Profiad o feithrin perthnasoedd cynhyrchiol a rhagweithiol gydag ystod eang o randdeiliaid a gweithredu gyda lefel uchel o graffu ac atebolrwydd cyhoeddus;
- Y gallu i weithredu ar draws ffiniau ac mewn gwahanol leoliadau a thystiolaeth o ymwybyddiaeth wleidyddol graff;
- Y gallu i ddylanwadu ar randdeiliaid lluosog.

## Cymwyseddau Craidd Hanfodol

**Meddwl yn strategol:** Dealltwriaeth o strategaeth gyffredinol y sefydliad a rôl y Bwrdd yn pennu'r strategaeth.

**Cyfathrebu:** Yr hyder i siarad, cyfranogi, herio'n adeiladol; cydnabod cyfrifoldeb i ymgysylltu mewn trafodaeth. Y gallu i wrando a pharchu barn pobl eraill.

**Gweithio mewn tîm:** Profiad o weithio mewn partneriaeth ag eraill, gweithio tuag at nodau cyffredin ac amcanion a rennir. Yn cefnogi gwneud penderfyniadau ar y cyd ac yn cefnogi penderfyniadau'r Bwrdd.

## Eich Ymrwymiad

Rydym yn chwilio am ymrwymiad i'n gweledigaeth, gwerthoedd a phwrpas. Ymrwymiad i'n cwsmeriaid a'n cymunedau, a sicrhau eu bod wrth galon popeth a wnawn. Parchu amrywiaeth, cynhwysiant a gwerth cyfraniad gwahaniaethau.

**Y gofyniad fydd rhwng 2 a 3 diwrnod y mis, sy'n cynnwys:**

- Amser i baratoi;
- Mynychu a chyfrannu at gyfarfodydd y Bwrdd a'r Pwyllgorau, yn rhithwir ac wyneb yn wyneb;
- Diwrnodau cwrdd i ffwrdd strategol;
- Hyfforddiant a datblygiad;
- Ymweliadau i'n cartrefi a'n hystadau;
- Cynrychioli Cymoedd i'r Arfordir.

Mae ein Bwrdd yn cyfarfod o leiaf chwe gwaith bob blwyddyn, fel arfer o 5pm i 8pm ar nos Lun. Mae ein Pwyllgorau yn cwrdd bedair gwaith y flwyddyn. Bydd dyddiadau'r cyfarfodydd yn cael eu cymeradwyo a'u cyhoeddi ar ddechrau'r flwyddyn, ar gyfer y flwyddyn gyfan i ddod, ac anfonir gwahoddiadau at aelodau'r Bwrdd yn electronig. O bryd i'w gilydd, efallai y bydd angen cynnull cyfarfodydd ychwanegol ar hyd y flwyddyn.

Mae'r Bwrdd yn cael ei gefnogi gan dri Phwyllgor – y Pwyllgor Archwilio a Risg, y Pwyllgor Datblygu ac Asedau a'r Pwyllgor Pobl a Chydnabyddiaeth Ariannol.

Yn ogystal â'u rôl ar y Bwrdd, mae'n ofynnol i bob aelod eistedd ar o leiaf un Pwyllgor. Mae pob Pwyllgor yn cwrdd bedair gwaith y flwyddyn, fel arfer o 5pm i 8pm ar nos Lun.

- 7 cyfarfod ffurfiol y Bwrdd (gan gynnwys y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol);
- 3 diwrnod strategaeth;
- 2 sesiwn dysgu a datblygu;
- Hyd at 4 cyfarfod o bob un o'r Pwyllgorau.

## Lleoliad Cyfarfodydd

Mae gennym ymagwedd gyfunol at ein cyfarfodydd, a gynhelir naill ai ar-lein trwy Google Meet, neu yn ein swyddfa yn Heol Tremains ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Maent yn gyfarfodydd ffurfiol, wedi'u cofnodi, a gadeirir gan Gadeirydd y Bwrdd neu'r Is-gadeirydd os na all y Cadeirydd fod yn bresennol.

## Hyfforddiant

Ystyrir bod hyfforddiant yn hanfodol ac mae'n rhaid i bob Aelod newydd a benodir gwblhau hyfforddiant sefydlu ffurfiol.

Wedi hynny, cynhelir hyfforddiant parhaus yn gyfnodol gan y Bwrdd cyfan. Anogir yr aelodau hefyd i fynychu cyfarfodydd allanol, gan gynnwys seminarau a chynadleddau, er mwyn ehangu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth.

Mae holl Aelodau'r Bwrdd yn derbyn gwerthusiad blynyddol ffurfiol a gynhelir gan Gadeirydd y Bwrdd a'r Cyfarwyddwr Llywodraethu a Sicrwydd. Mae'r broses hon yn galluogi aelodau i nodi pa mor dda y maent yn teimlo y mae'r Bwrdd yn gweithredu ac yn rhoi cyfle i drafod eu cyfraniad ac unrhyw ofynion hyfforddi a datblygu yn y dyfodol i gefnogi eu hanghenion unigol.

## Cydnabyddiaeth Ariannol a Threuliau

Telir £9,000 am y rôl hon ynghyd â thaliad o dreuliau rhesymol ar gyfer costau teithio a chynhaliaeth yr eir iddynt wrth gyflawni eu rôl.

# **Dyddiadau allweddol**
# a'r broses ddethol

### Dyddiad Cau ar gyfer Ceisiadau:

**8 Ionawr 2024 (12yp)**

Byddwn yn cysylltu ag ymgeiswyr ar 12 Ionawr 2024 i gadarnhau canlyniadau'r ceisiadau.

### Canolfan Asesu:

**5 Chwefror 2024**

Bydd cam olaf y broses yn cynnwys cwrdd â chyd-aelodau'r Bwrdd, yn ogystal â'n cwsmeriaid ac yna cyfweliad panel. Bydd y panel yn cynnwys aelodau'r Bwrdd a'r Tîm Arweinyddiaeth a byddant yn cael eu cynnal mewn person ym Mhrif Swyddfa Cymoedd i'r Arfordir ym Mhen-y-bont ar Ogwr.

Os na allwch fynychu ar unrhyw rai o'r dyddiadau a nodwyd ar gyfer cyfweliad, dylech siarad â thîm recriwtio Cymoedd i'r Arfordir cyn gwneud cais.

### Gwybodaeth ddefnyddiol

- Strategaeth Gorfforaethol
- Datganiadau Ariannol



# Sut i ymgeisio

**Os ydych wedi darllen y wybodaeth i ymgeiswyr ac y byddech yn hoffi ymgeisio, dilynwch y canllawiau isod os gwelwch yn dda.**

## Y broses ymgeisio

Cyflwynwch eich Curriculum Vitae (CV) diweddaraf ynghyd â llythyr eglurhaol, gan sicrhau eich bod yn nodi'r cyfeirnod **ema:470**.

Mae'n bwysig i'ch CV amlygu tystiolaeth ategol o'r modd y mae eich profiad a'ch sgiliau blaenorol yn berthnasol i'r meini prawf a amlinellwyd yn y proffil o'r swydd, a phroffil yr unigolyn y dymunir ei gael ar ei chyfer. O fewn eich CV, darparwch y canlynol os gwelwch yn dda:

- Eich enw a'ch cyfeiriad post llawn;
- Rhifau ffôn gwaith a'ch cartref, eich rhif ffôn symudol a'ch cyfeiriad e-bost (ON anfonir y rhan fwyaf o'r cyfathrebiadau ysgrifenedig atoch yn electronig);
- Rhif Yswiriant Gwladol;
- Hanes eich cyflogaeth (gan egluro unrhyw fylchau);
- Eich addysg, a'r dyddiadau y cyflawnwyd eich cymwysterau;
- Aelodaeth gyfredol o gymdeithasau/ sefydliadau proffesiynol perthnasol a'u dyddiadau.

Dylid defnyddio eich llythyr eglurhaol (na ddylai fod yn fwy na 3 tudalen o hyd) i gyfleu pam y cawsoch eich denu i'r rôl, gan ddisgrifio'r modd y bydd eich profiad a'ch sgiliau'n helpu Cymoedd i'r Arfordir fapio ei phwrpas, ei chyfeiriad a'i blaenoriaethau at y dyfodol. Ystyrir bod y llythyr eglurhaol hwn yn agwedd bwysig ar eich cais, ac fe'i defnyddir i asesu'r hyn sy'n eich cymell i fod eisiau cyflawni'r rôl.

Gofynnwn i chi hefyd gwblhau Ffurflen Fonitro Cyfle Cyfartal y gellir ei lawrlwytho yma. Ni chaiff unrhyw wybodaeth a gaiff ei choladu o'r Ffurflen Fonitro Cydraddoldeb ac Amrywiaeth at Ddibenion Recriwtio ei defnyddio fel rhan o'r broses ddethol, a chaiff ei chadw'n gwbl gyfrinachol.

Cynhwysir yr amserlen ar gyfer y broses ddethol isod. Yn eich llythyr eglurhaol, rhowch wybod i ni p'un a yw'r dyddiadau a amlinellwyd a/neu unrhyw ddyddiadau eraill o ran pryd y byddwch ar gael ar gyfer eich asesu, yn creu problem i chi. Byddwn yn ceisio bod yn hyblyg, ond gall fod yn anodd cynnull y panel dethol y tu hwnt i'r dyddiadau dethol a hysbysebwyd oherwydd ymrwymiadau yn eu dyddiaduron.

Dychwelwch eich cais erbyn hanner dydd, ar **8 Ionawr 2024** (cyflwyniadau electronig) at ein hymgynghorwyr wrth gefn yn 'ema consultancy limited', gan ddefnyddio'r cyfeiriad a ganlyn: **responsehandling1@emaconsultancy.org.uk**

## Y broses asesu a dethol

Caiff pob cais ei ystyried a'i asesu yn erbyn gofynion Proffil yr Unigolyn, er mwyn dewis rhestr hir gychwynnol o ymgeiswyr.

Os ydych yn llwyddiannus ar y cam hwn, bydd ema yn cysylltu â chi dros y ffôn/trwy e-bost, yn dilyn y cyfarfod cychwynnol a gynhelir gan Cymoedd i'r Arfordir i lunio rhestr hir.

## Amserlen

**Dyddiad cau:**
8 Ionawr 2024 (12yp)

**Cyfweliadau sgrinio:**
W/D 15 Ionawr 2024

**Cyfweliad ac asesiadau terfynol:**
5 Chwefror 2024

## Ymholiadau

Os oes gennych unrhyw ymholiadau am y swydd neu'r broses ddethol, neu os hoffech gael sgwrs anffurfiol a chyfrinachol â'n hymgynghorydd wrth gefn, cysylltwch ag Anne Elliott yn ema ar **07768 027837** neu Ian Robertson ar **07947 126329**.